



Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a
Thribiwnlysoedd Pwyllgor Cymru
Administrative Justice & Tribunals Council
Welsh Committee

Hyrwyddo Cyfiawnder Gweinyddol
Advancing Administrative Justice

Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Pwyllgor Cymreig

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2008/2009





Cyhoeddwyd gan TSO
(The Stationery Office) ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Teleffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion teleffôn/Ymholiadau cyffredinol:
0870 600 5522
Archebwch drwy Linell wybodaeth galwad
isel Parliamentary: 0845 702 3474
Archebion Ffacs: 0870 600 5533
E-bostiwrch: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Destun: 0870 240 3701

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Archebion teleffôn/Ymholiadau cyffredinol:
020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
Ebostiwrch: bookshop@parliament.uk
Y we: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac Asiantwyr Archrededig eraill

Hefyd, gall gwsmeriaid archebu ffurflen
cyhoeddiadau gan:

TSO Ireland
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

ISBN 978-0-10-850832-5



9 780108 508325



Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a
Thribiwnlysoedd Pwyllgor Cymru
Administrative Justice & Tribunals Council
Welsh Committee

Hyryddo Cyfiawnder Gweinyddol
Advancing Administrative Justice

Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Pwyllgor Cymreig

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2008/2009

Cyflwynir yr Adroddiad hwn i Weinidogion Cymru

Fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru
yn unol â pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd,
Llysoedd a Gorfodaeth 2007

Mae'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a'i Bwyllgor yn yr Alban yn
cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol eu hunain

16 Mehefin 2009

© Hawlfraint y Goron 2009

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a logos adrannau neu asiantaethau eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir heb ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan berchnogion yr hawlfraint dan sylw.

I ddefnyddio'r deunydd hwn mewn unrhyw ffordd arall, ysgrifennwch at: Office of Public Sector Information, Information Policy Team, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu anfonwch e-bost i: licensing@opsi.gov.uk

ISBN: 978 0 10 850832 5

Rhagair y Cadeirydd



Beth yw Cyfiaunder Gweinyddol? Ac a yw o buys; a yw o buys mawr i bobl Cymru?

Gellid bod wedi maddau i Buyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd, efallai, am roi cwestiynau mor fawr o'r neilltu. Dim ond ym mis Mehefin 2008 y daethom i fodolaeth ac yn ein blwyddyn gyntaf rydym wedi gorfod gweithio'n galed i ddeall tirwedd cyfiaunder gweinyddol yng Nghymru: tirwedd a wneir yn gymhleth gan gydbblethu systemau datganoledig a systemau heb eu datganoli. Mae'r adroddiad hwn, ein hadroddiad blynyddol cyntaf, yn adlewyrchu llawer o'r trafodaethau a chyfarfodydd a gynhaliwyd gennym gyda'r farnwriaeth, Gweinidogion y Llywodraeth, swyddogion a darparwyr cyngor yn ein hymgais i ddeall.

Gan ddechrau gyda thriwlynlysoedd, rydym wedi nodi bod angen gwahanu pwerau – gwarantwr tryloyw annibyniaeth – yn ymwneud â pholisi ar driwlynlysoedd ac ariannu a gweinyddu triwlynlysoedd. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, rydym wedi cychwyn adolygiad o driwlynlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru. Byddwn yn cyflwyno ein syniadau cychwynol i'n cynhadledd yng Nghymru ym mis Mehefin a bwriadwn gyflwyno ein hadroddiad i Weinidogion yn hydref 2009.

Fodd bynnag, er eu bod yn buysig, un rhan yn unig yw triwlynlysoedd yn y briff eang sydd bellach wedi'i bennu i'r Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd. Mae ffiniau a nodweddion cyfiaunder gweinyddol yn faterion y mae'n rhaid i'r Cyngor cyfan fynd i'r afael â hwy. Ond un peth sy'n glir o'r cychwyn yw nad oes a wnelo cyfiaunder gweinyddol â cheisio iawn i ddinasyddion yn unig ("unioni cam"), ond hefyd â dysgu gwersi o'r hyn sy'n mynd o'i le a'u hymgorffori mewn gweledigaeth o weinyddiaeth gyhoeddus dda ("ei wneud yn iawn"). Mae canolbwyntio ar wella prosesau gwneud penderfyniadau cychwynol mewn llywodraeth yn rhan hanfodol o'r gwaith o wella profiad defnyddwyr y system. Dylai arwain at ganlyniad gwell i ddinasyddion, llai o waith i'r systemau apêl a chostau is i'r llywodraeth.

Dyma pryd mae'r cwestiynau mawr sy'n ein hwynebu yn cyd-fynd yn union â phrif thema gwasanaethau cyhoeddus Cymru: y dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae'r materion a godwyd yn agenda Creu'r Cysylltiadau/Beecham a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i wraidd prif amcan y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd – sef canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr uwchlaw popeth arall. Mae ein gweledigaeth o system cyfiaunder gweinyddol gydlynol, hygyrch a theg yng Nghymru yn un rhan – anhepgor – o agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'n anochel, felly, ein bod o'r farn bod angen un canolbwynt i gyfiaunder gweinyddol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Canolbwynt sy'n gallu meithrin dealltwriaeth ac arbenigedd a chyflwyno polisiau cydlynol ym mhob agwedd ar gyfiaunder gweinyddol. Heb hyn nid oes fawr o obaith, yn ein barn ni, y ceir yr arweiniad cryf a hyddysg sydd ei angen er mwyn gwneud y gwaith o geisio sicrhau cyfiaunder gweinyddol yn elfen allweddol o'r ymgyrch i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Byddwn yn parhau i bwyso am y datblygiad hwn.

Yr Athro Syr Adrian Webb

Trosolwg

DIBEN

Diben y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yw helpu i wneud cyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd yn fwy hygyrch, teg ac effeithiol drwy:

- chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu egwyddorion cyson ac arfer da;
- hyrwyddo dealltwriaeth, dysgu a gwelliant parhaus;
- sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn ganolog.

GWELEDIGAETH

Gweledigaeth y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ar gyfer cyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd yw system lle:

- mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gweinyddol yn gwneud hynny ar sail tystiolaeth gadarn a chan ystyried anghenion y rhai yr effeithir arnynt;
- mae pobl yn cael eu helpu i ddeall y ffordd orau o herio penderfyniadau neu geisio iawn am gamwedd yn y ffordd leiaf costus ac anghyfleus iddynt hwy;
- mae cwynion yn cael eu datrys mewn ffordd sy'n deg, yn amserol, yn agored ac yn gymesur;
- mae ymgais o hyd i wella ar bob cam o'r broses.

GWERTHOEDD

Y gwerthoedd y mae'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd am eu hyrwyddo ym maes cyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd yw:

- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Tegwch a chymesuredd
- Didueddrwydd ac annibyniaeth
- Mynediad cyfartal i gyfiawnder.


AMCANION STRATEGOL

Bydd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd, uwchlaw popeth, yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr.

Bydd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yn:

- Adolygu datblygiad cyfiawnder gweinyddol a thriwlynlysoedd a dylanwadu arno;
- Adolygu gwaith y Gwasanaeth Triwlynlysoedd, y triwlynlysoedd oddi mewn iddo a thriwlynlysoedd eraill;
- Ymateb yn awdurdodol i faterion sy'n codi a chynigion sy'n effeithio ar gyfiawnder gweinyddol, triwlynlysoedd neu ymchwiliadau neu sy'n ymwneud â hwy.

MATERION ALLWEDDOL I'R PUWYLLGOR CYMREIG

- Yr angen am bolisi cyson ar gyfer cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru
 - Yr angen am wahanu pwerau sy'n ymwneud â pholisi, ariannu a gweinyddu triwlynlysoedd yng Nghymru
 - Yr angen i ganolbwyntio ar wella penderfyniadau a wnaed yn wreiddiol gan y llywodraeth
- 

Cynnwys

Cyflwyniad a Chrynodeb

- Perthynas â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd . . .2
- Crynodeb o'n Gwaith2
- Crynodeb o'r Materion Allweddol3

Amcan 1: Adolygu datblygiad cyfiawnder gweinyddol a dylanwadu arno

- Ein Rôl a Blaenoriaethau4
- Ein Gweithgareddau5
 - Datblygu Ein Dealltwriaeth o Gyfiawnder Gweinyddol5
 - Codi Ymwbyddiaeth6
 - Meithrin Cydberthnasau7
 - Canolbwyntio ar y Dinesydd11

Amcan 2: Adolygu gwaith y tribiwnlysoedd a'r ymchwiliadau sy'n gweithredu yng Nghymru

- Ein Rôl a Blaenoriaethau13
- Ein Gweithgareddau14
 - Adolygiad o'r Tribiwnlysoedd yng Nghymru14
 - Y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys yng Nghymru . .15
 - Arsylwi ar Wrandawiadau Tribiwnlys17
 - Meithrin Cydberthnasau17
 - Hyfforddiant17
 - Grwpiau Defnyddwyr Tribiwnlysoedd18

Amcan 3: Ymateb yn awdurdodol i faterion sy'n codi a chynigion

- Ein Rôl a Blaenoriaethau19
- Ein Gweithgareddau20
 - Ymatebion i Ymgynghoriadau20
 - Adolygiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru23

Appendices

- A: Aelodaeth o Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd26
- B: Aelodaeth o'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a'i Bwyllgor yn yr Alban28
- C: Rhaglen Waith29
- Ch: Cyfansymiau31
- D: Cyfarfodydd ac Ymweliadau â Thribiwnlysoedd32

Cyflwyniad a Chrynodeb

The...remit of the AJTC across the whole landscape of administrative justice is an important one. In the end, it is about helping promote good quality decision-making by government, local councils and agencies – and ensuring that there are accessible, fair and effective means of securing correction or redress when grievances arise. These are things that matter to every citizen.

Cadeirydd y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwlysoedd, yr Arglwydd Newton o Braintree, Adroddiad Blynyddol 2007/08

1. Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwlysoedd, a sefydlwyd o dan *Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007* [y Ddeddf]. Daeth y Pwyllgor i fodolaeth ar 1 Mehefin 2008 ac mae'r adroddiad hwn yn cumpasu'n ffurfiol y cyfnod o'r dyddiad hwnnw hyd at 31 Mawrth 2009. Fodd bynnag, mae rhai o'r materion a gynhwyswyd yn adlewyrchu datblygiadau hyd at ddiwedd mis Ebrill 2009.
2. Nodir swyddogaethau allweddol y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwlysoedd a'i Buwllgorau yn y Ddeddf ac maent yn cynnwys:
 - adolygu'r system cyfiaunder gweinyddol gyffredinol
 - ystyried ffyrdd o wneud y system yn hygyrch, yn deg ac yn effeithlon
 - cyngori ar ddatblygiad y system
 - gwneud cynigion ar gyfer newidiadau yn y system
 - gwneud cynigion ar gyfer ymchwil i'r system
 - adolygu cyfansoddiad y triwlysoedd a ddynodwyd yn rhai o dan oruchwyliaeth y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwlysoedd a'r ffordd y maent yn gweithredu
 - adolygu cyfansoddiad ymchwiliadau statudol a'r ffordd y maent yn gweithredu
3. Diffinnir y 'system cyfiaunder gweinyddol' o dan y Ddeddf fel:

*the overall system by which decisions of an administrative or executive nature are made in relation to particular persons, including the procedures for making such decisions, the law under which they are made, and the systems for resolving disputes and airing grievances in relation to them.*¹

¹ *Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007*, Atodlen 7, para 13(4).

4. Fel Pwyllgor newydd, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth o gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru a nodi a blaenoriaethu materion allweddol i Gymru. Datblygwyd ein rhaglen waith gyntaf gennym [Atodiad C] fel rhan o Raglen Waith ehangach y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd, a gyflwynwyd i'r Arglwydd Ganghellor a Gweinidogion Cymru a'r Alban.
5. Mae'r materion a gynhwysir yn ein rhaglen waith yn deillio o'n prif amcan o ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr uwchlaw popeth arall, a thri amcan strategol y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd sef :
 - Adolygu datblygiad cyfiawnder gweinyddol a thriwlynlysoedd a dylanwadu arno
 - Adolygu gwaith y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, y triwlynlysoedd oddi mewn iddo a thriwlynlysoedd eraill
 - Ymateb i faterion sy'n codi a chynigion ym maes cyfiawnder gweinyddol.

Rydym wedi mabwysiadu'r amcanion strategol hyn fel y fframwaith ar gyfer rhoi adroddiad ar ein gweithgaruch.

Perthynas â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd

6. Ein bod gennym ein hunaniaeth ein hunain ac yn arwain y gwaith o oruchwylio cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru mewn meysydd datganoledig a'r rhai nas datganolwyd, rydym hefyd yn chwarae rhan bwysig yng ngwaith y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yn gyffredinol. Mae ein Cadeirydd yn aelod o'r Pwyllgor Cymreig a'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd.
7. Ar y cyd â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd a'i Bwyllgor yn yr Alban, rydym wedi llunio protocol sy'n disgrifio trefniadau ar gyfer gweithredu'r darpariaethau statudol sy'n rheoli'r berthynas rhwng y Cyngor a'i Bwyllgorau a amlinellir yn Atodiad 7 i'r Ddeddf. Mae'r protocol hwn yn adlewyrchu ein hawydd i gynnal cydberthnasau gwaith agored a chydweithredol, a chynnal busnes ar sail 'dim cyflwyno dim byd yn annisgwyl'.

Crynodeb o'n Gwaith

8. Ers ein cyfarfod cyntaf ym mis Mehefin 2008, rydym wedi:
 - Ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall eu safbwyntiau a'u pryderon ynglyn â materion cyfiawnder gweinyddol allweddol, gan gynnwys cynnal lansiad ym mis Rhagfyr 2008, cynllunio ar gyfer ein cynhadledd gyntaf ym mis Mehefin 2009 a chynnal cyfarfodydd unigol â'r farnwriaeth, gweinidogion y llywodraeth, swyddogion ac asiantaethau, ombudsmyn a'r rhai sy'n rhoi cyngor.
 - Dechrau adolygiad o'r triwlynlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru, er mwyn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar ddiwygiadau posibl. Rydym wedi arsylwi ar nifer o wrandawiadau triwlynlys ac wedi mynd i ddigwyddiadau hyfforddiant a chynadleddau ar gyfer triwlynlysoedd.

- Rhoi cyngor i Weinidogion ar nifer o faterion sy'n ymwneud â chyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd mewn ymateb i ymgynghoriadau'r llywodraeth.

Crynodeb o'r Materion Allweddol

9. Ers ein sefydlu ym mis Mehefin 2008, rydym wedi nodi'r tri mater allweddol canlynol o ran cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru a bwriadwn ganolbuwyntio ar y rhain yn y flwyddyn sydd i ddod:

Yr angen am bolisi cydlynol ar gyfer cyfiawnder gweinyddol

Rydym yn pryderu nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu gweledigaeth gyson o gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Mae wedi tueddu i edrych ar ddulliau gwneud iawn yn unigol, yn hytrach na safbwynt ehangach system o gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Dros y flwyddyn sydd i ddod, gan ddechrau gyda'n cynhadledd ym mis Mehefin 2009, byddwn yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i ddatblygu a hyrwyddo polisi cydlynol ar gyfer cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru sy'n canolbuwyntio ar y dinesydd.

Yr angen am wahanu puerau sy'n ymwneud â pholisi, ariannu a gweinyddu tribiwnlysoedd yng Nghymru.

Mae adrannau y mae eu penderfyniadau yn cael eu herio ar hyn o bryd yn gyfrifol am bolisi, ariannu a gweinyddu tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Rydym o'r farn nad yw hyn yn ddigon annibynnol, agored, diduedd nac effeithlon. Rydym wedi dechrau adolygiad o'r tribiwnlysoedd yng Nghymru i ystyried y materion hyn, a byddwn yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn â diwygiadau posibl yn 2009/10.

Yr angen am ganolbuwyntio ar wella penderfyniadau a wnaed yn wreiddiol gan y llywodraeth

Rydym o'r farn bod gwneud penderfyniadau gwell o'r cychwyn yn un o'r agweddau pwysicaf ar wella profiad defnyddwyr o'r system cyfiawnder gweinyddol. Mae "Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf" yn golygu canlyniad gwell i'r unigolyn, llai o waith i'r systemau apêl a chostau is i'r llywodraeth. Mae ein cylch gwaith eang yn ein rhoi mewn sefyllfa unigryw i ddwyn ynghyd rhanddeiliaid o bob rhan o'r system ac amlygu gwersi a ddysgwyd o ddulliau gwneud iawn. Rydym wedi dechrau meithrin perthynas â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, a byddwn yn parhau i ymdrin â'r mater hwn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Amcan 1: Adolygu datblygiad cyfiawnder gweinyddol a dylanwadu arno

EIN RÔL

Fe'n penodwyd gan Weinidogion Cymru² i ymgymryd â'r swyddogaethau statudol a ganlyn:

- adolygu'r system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru
- ystyried ffyrdd o wneud y system yn hygyrch, yn deg ac yn effeithlon
- cynghori Gweinidogion Cymru ac eraill ar ddatblygiad y system yng Nghymru
- cyfeirio cynigion ar gyfer newidiadau i'r system i Weinidogion Cymru ac eraill
- gwneud cynigion ar gyfer ymchwil i'r system yng Nghymru.³

Gall Gweinidogion Cymru neu'r Arglwydd Ganghellor ofyn i ni gyflwyno adroddiad ar faterion penodol, neu gallwn benderfynu cyflwyno adroddiadau ein hunain.

EIN BLAENORIAETHAU

Er mwyn cyflawni Amcan 1, ein prif flaenoriaethau ar gyfer 2008/09 oedd:

- Meithrin dealltwriaeth o gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru
- Dechrau nodi a blaenoriaethu materion allweddol i Gymru
- Codi ymwybyddiaeth o gyfiawnder gweinyddol a rôl a gwaith y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a'r Pwyllgor Cymreig
- Cynllunio ar gyfer cynhadledd Cyfiawnder Gweinyddol yng Nghymru yn 2009
- Trafod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru rôl gwneud iawn â dinasyddion drwy ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

² Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Atodlen 7, para 7.

³ Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Atodlen 7, para 13.

EIN GWEITHGAREDDAU

Datblygu Ein Dealltwriaeth o Gyfiawnder Gweinyddol

We are all entitled to receive correct decisions on our personal circumstances; where a mistake occurs we are entitled to complain and have the mistake put right with minimum difficulty; where there is uncertainty we are entitled to expect a quick resolution of the issue; and we are entitled to expect that where things have gone wrong the system will learn from the problem and will do better in the future.

This is the sphere of administrative justice. It embraces not just courts and tribunals but the millions of decisions taken by thousands of civil servants and other officials.

Transforming Public Services: Complaints, Redress and Tribunals, Papur Gwyn a baratowyd gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol, 2004, t.3

1. Ein cylch gwaith yw ystyried maes cyfiawnder gweinyddol yn ei gyfanrwydd, gan ddechrau gydag ansawdd y penderfyniad gwreiddiol, i wahanol fathau o ddyfarnu, adolygu a gwneud iawn (yn fewnol ac yn allanol), a'r berthynas rhwng asiantaethau'r llywodraeth, y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.
2. Er mwyn gallu cyngori Gweinidogion Cymru yn awdurdodol ar ddatblygiad y system, rydym wedi canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth o gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Un thema ganolog sydd wedi dod i'r amlwg fu ei **chymhlethdodau**, yn enwedig o ganlyniad i ddatganoli. Er nad yw 'cyfiawnder' yn faes datganoledig, mae rhan fawr o 'gyfiawnder gweinyddol' wedi'i datganoli - lle mae meysydd llywodraethu sylweddol wedi cael eu datganoli, mae agweddau ar y system cyfiawnder gweinyddol yn y meysydd hynny wedi cael eu datganoli hefyd.
3. Gan edrych ar un enghraifft, mae nifer o agweddau ar gyfiawnder cymdeithasol ym maes datganoledig iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys:
 - penderfyniadau sy'n ymwneud â hawl unigolyn i gael cymorth gofal cymdeithasol neu driniaeth feddygol, er enghraifft
 - y gwahanol ffyrdd o ymdrin â chwynion ynglyn â'r ffordd y darperir gwasanaethau a phenderfyniadau ynglyn â gwasanaethau, megis tri cham system gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol a dau gam gweithdrefnau cwyno newydd y GIG

- ystyriaeth o gwynion am gamweinyddu sy'n ymwneud â darpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gan Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
 - Tribiwnlysoedd a chyrrff proffesiynol i'r DU gyfan a sefydlwyd drwy statud sy'n ymwneud â rheoleiddio a disgyblu gweithwyr proffesiynol iechyd cyhoeddus
 - Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, sy'n gwrando ar geisiadau ac atgyfeiriadau ar gyfer pobl a gedwir yn gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
4. Yn ogystal â bod yn gymhleth, mae cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru hefyd yn **datblygu'n gyflym**, yn rhannol o ganlyniad i ddatganoli. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael pwerau deddfu newydd o ganlyniad i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a thrwy ddarpariaethau mewn deddfwriaeth a wneir yn San Steffan. O ganlyniad, mae deddfwriaeth sy'n effeithio ar faterion cyfiawnder gweinyddol sy'n ymwneud â phynciau mor amrywiol â gofal plant, addysg, iechyd a chynllunio yn datblygu mewn ffyrdd sy'n benodol i Gymru.

Codi Ymwuybyddiaeth

The existence of the [AJTC Welsh] Committee, together with the new office of Public Services Ombudsman for Wales...gives us the chance to look afresh at the picture of administrative justice in Wales...

Hugh Rawlings, Cyfarwyddwr yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu, yn annerch cynhadledd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ym mis Tachwedd 2008

5. Rydym wedi cynnal ac wedi bod yn bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau lle rydym wedi ceisio codi ein proffil ein hunain a phroffil cyfiawnder gweinyddol.

Cynhadledd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd

6. Yng nghynhadledd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn Llundain ar 18 Tachwedd 2008, rhoddodd Hugh Rawlings, Cyfarwyddwr yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyniad ar gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru, fel rhan o drafodaeth banel ehangach am ddatblygiadau ym maes cyfiawnder gweinyddol ledled y DU.

7. Esboniodd ein rôl o ran datblygu darlun cyfannol o driwlysoedd, ac yn wir o gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru yn fwy cyffredinol, ac amlinellodd ddau ffactor sy'n cyfrannu at gymhlethdod cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru:
 - Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am rai agweddau ar gyfiawnder gweinyddol ac mae San Steffan yn gyfrifol am eraill
 - Mae'r cyd-destun cyfansoddiadol sy'n datblygu'n gyflym yng Nghymru yn arwain at anallu hyd yma i ddatblygu gweledigaeth o gyfiawnder gweinyddol i'r llywodraeth gyfan.

Lansio

8. Ar 9 Rhagfyr 2008 cynhaliwyd derbyniad gyda'r hwyr i ddathlu sefydlu'r Pwyllgor. Bu amrywiaeth mawr o bobl yn bresennol, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, barnwyr a staff cymorth triwlysoedd a llysoedd, cynrychiolwyr Ombwdsmyrn ac eraill. Yn ystod y digwyddiad rhoddodd ein Cadeirydd anerchiad am ein diben, ein cylch gwaith a'n hamcanion strategol, a phwysleisiodd:
 - yr angen am **ffordd o integreiddio polisi** ym maes cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru
 - Yr angen am **wahanu pwerau** rhwng triwlysoedd datganoledig ac adrannau'r llywodraeth y gwneir apêl yn eu herbyn.
9. Tynnodd sylw hefyd at y nodweddion unigryw yng Nghymru a ddylai ei gwneud yn bosibl i system cyfiawnder gweinyddol gydgyssylltiedig gael ei datblygu, megis system lywodraethu fach a allai fod yn hynod gydgyssylltiedig ac ymagwedd tuag at wasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Nododd ein huchelgais i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill

to make a difference to public service users in Wales via 'large issues' of policy and principle, and 'workaday issues' that affect users, such as tribunal hearing venues and the availability of advice and representation.

Cynhadledd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlysoedd

10. Rydym wedi bod yn paratoi ar gyfer cynnal ein cynhadledd gyntaf ar 18 Mehefin 2009 yng Nghaerdydd. Thema'r gynhadledd yw 'Cyfiawnder Gweinyddol yng Nghymru: Canolbwyntio ar y Dinesydd'. Bydd siaradwyr yn cynnwys y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn rhoi mwy o fanylion am y digwyddiad hun yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf.

Meithrin Cydberthnasau

11. Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi cyfarfod â nifer o unigolion a sefydliadau i glywed am ddatblygiadau ym maes cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru a dylanwad arnynt ac rydym wedi dechrau adeiladu rhwydwaith o sefydliadau ac unigolion allweddol.

Ombudsmyn

12. Mae Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru⁴ ac Ombudsmon Senedd y DU⁵ yn aelodau *ex officio* o'n Pwyllgor ac wedi bod yn chwarae rhan yn ein gwaith a'n cyfarfodydd. Rydym yn ystyried yr Ombudsmyn yn bartneriaid allweddol yn y gwaith o oruchwylio'r system cyfiawnder gweinyddol. Ym mis Mawrth 2009 ymwelwyd â swyddfa Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i glywed mwy am ei rôl.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

13. Rydym wedi ceisio cysylltiadau â'r rhai yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a chanddynt ddi-ddordeb mewn cyfiawnder gweinyddol ynglyn ag amryw faterion. Rydym wedi cysylltu â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol o ran yr ymgynghoriad ar Ad-drefnu Tribiwnlysoedd Prisio Cymru a'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ynglyn â'r angen brys am ganllawiau gweithdrefnol ar weithrediad yr Adolygiad Annibynnol o Baneli Dyfarnu (gweler Amcan 3 isod am ragor o fanylion).
14. Ar ddiwedd 2008, ysgrifennwyd at y Gweinidog Cyllid a Gwella Llywodraeth Leol, yn mynegi ein diddordeb mewn dod yn rhan o brosiect i ystyried **uno systemau cwyno** ym mhob rhan o'r llywodraeth⁶. Bu ein Cadeirydd yn bresennol mewn cyfarfod o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried y polisi a'r ymchwil i guynion ynglyn â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Trafodwyd natur y problemau sy'n gysylltiedig â'r prosesau presennol o ymdrin â chwynion a'r camau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen i wella'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion a'r hyn a ddysgir yng ngoleuni ymchwil a thystiolaeth gyfredol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ystyried y materion hyn ymhellach yn 2009/10.
15. Rydym hefyd wedi cyfarfod â swyddogion o'r Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu, sy'n gweithio ar brosiect i fapio systemau ar gyfer ymdrin â chwynion ym mhob rhan o'r llywodraeth.

⁴ Ym mis Ebrill 2006 cafodd Ombudsmon Llywodraeth Leol Cymru, Ombudsmon Gwasanaeth Iechyd Cymru, Ombudsmon Gweinyddiaeth Cymru ac Ombudsmon Tai Cymdeithasol Cymru eu disodli gan Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i guynion gan y cyhoedd ynglyn â gwasanaethau a ddarperir gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys gofal iechyd, adrannau'r llywodraeth a'u hasiantaethau, gwasanaethau cymdeithasol, cynllunio, addysg, llywodraeth leol a thai, a (i'r graddau y mae eu hymddygiad yn effeithio ar Gymru) rhai awdurdodau cyhoeddus eraill.

⁵ Mae gan Ombudsmon Senedd y DU awdurdodaeth dros rai cwynion yng Nghymru, megis y rhai sy'n ymwneud â materion nawdd cymdeithasol, mewnfudo a threthiant.

⁶ Cyfeiriwyd at y prosiect yn gyntaf fel rhan o ystyriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Adroddiad Blynyddol Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2007/08 ar 12 Tachwedd 2008 yn <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=105680#3>.

Darparwyr Cyngor a Chynrychiolaeth

16. Ym mis Tachwedd 2008, rhoddodd un o'n haelodau gyflwyniad ar ein rôl a'n cylch gwaith mewn cyfarfod o **Uned Hawliau Lles Castell-nedd Port Talbot**. Tîm o staff awdurdod lleol yw'r Uned Hawliau Lles a ffurfiwyd i annog pobl i hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol a lles. Codwyd pryderon yn y cyfarfod ynglyn â hyfforddiant aelodau tribiwnlys sy'n eistedd mewn apeliadau anabledd, ac aneffeithlonrwydd o ran trefnu gwrandawladau. Nodwyd mai anaml y mae swyddogion cyflwyno o'r Ganolfan Byd Gwaith a'r Gwasanaeth Pensiwn yn bresennol mewn gwrandawladau apêl, sy'n golygu bod yn rhaid i'r paneli apêl chwarae rhan fwy gweithgar yn y gweithrediadau. Mae hwn yn fater y mae'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a'r cyngor a'i ragflaenodd, y Cyngor ar Dribiwnlysoedd, wedi gwneud sylwadau arno sawl gwaith yn y gorffennol. Roedd yn bryder i ni glywed bod apelyddion, ar ôl llwyddo mewn apêl ar Fuddal Analluogrwydd yn aml yn wynebu penderfyniad negyddol newydd ar eu hawliad yn syth (gan fod yr apêl fel arfer yn ymwneud â chyfnod rai misoedd yn y gorffennol), a bod yn rhaid iddynt ddechrau'r broses apelio gyfan o'r newydd.
17. Ym mis Ionawr 2009 bu un o'n haelodau yn bresennol mewn cyfarfod o **Gynghorwyr Hawliau Lles Cymru** i esbonio ein rôl ac i gasglu adborth ar dribiwnlysoedd apêl nawdd cymdeithasol, lle mae cynghorwyr hawliau lles yn aml yn cynrychioli eu cleientiaid. Rhwydwaith o gynghorwyr hawliau lles o bob rhan o Gymru yw Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru, sy'n cyfarfod bob chwarter i gyfnewid gwybodaeth, trafod materion polisi a datblygiadau ym maes y gyfraith a chael hyfforddiant. Byddwn yn ceisio adeiladu ar y cyswllt cyntaf hwn dros y flwyddyn sydd i ddod.
18. Ym mis Tachwedd 2008 bu un o'n haelodau yn bresennol yng nghynhadledd gyntaf y **Rhwydwaith Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus** (Plenet) o'r enw 'Developing Capable Citizens: Civil Justice and Public Legal Education' yng Nghaerdydd. Rhwydwaith o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio ym maes addysg gyfreithiol gyhoeddus yw Plenet. Daeth y digwyddiad ag ymarferwyr a llunwyr polisi ynghyd i feithrin gwell dealltwriaeth o'r cysyniad o allu cyfreithiol, i drafod datblygiad addysg dinasyddiaeth a chyflwyno ymchwil a gwaith gwerthuso Plenet. Gwnaeth potensial y mentrau ym maes addysg gyfreithiol gyhoeddus i wella profiad defnyddwyr argraff arnom, ac rydym yn awyddus i edrych ar y posibilrwydd o gydweithio â Plenet.

Deddfuriaeth Cymru Ar-lein

19. Ym mis Medi 2008 cyfarfuom â David Lambert a Marie Navarro o **Ysgol y Gyfraith, Caerdydd** i glywed mwy am natur a chwmpas pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol, effaith gyfansoddiadol mesurau Cymru, a'r broses o graffu ar ddeddfuriaeth ddrafft. Roedd diddordeb arbennig gennym yng ngwasanaeth Deddfuriaeth Cymru Ar-lein, a grëwyd gan Ysgol y Gyfraith, Caerdydd ac a gefnogwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r wefan hon yn rhoi gwybodaeth am y pwerau gweithredol a'r is-ddeddfuriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd â llywodraeth ganolog, a phwerau deddfu'r Cynulliad a'r Mesurau a wneir ganddo.

20. O ystyried tirwedd ddeddfwriaethol a chyfansoddiadol gymhleth Cymru, mae'r wefan yn adnodd gwerthfawr i helpu pobl i ddeall y system ddeddfwriaethol. Er mwyn tynnu sylw at y wefan, cynhwyswyd erthygl gan Marie Navarro yn rhifyn mis Rhagfyr o *Adjust*, sef e-gylchlythyr y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.

Llais Defnyddwyr Cymru

21. Ym mis Mawrth 2009 cyfarfuom â chynrychiolydd o Llais Defnyddwyr Cymru i glywed mwy am eu gwaith ac ystyried cyfleoedd i gydweithredu. Llais Defnyddwyr yw'r sefydliad statudol newydd a grëwyd drwy uno Cyngor Defnyddwyr Cymru, Golwg ar Bost Cymru a Golwg ar Ynni Cymru a'i gylch gwaith yw ymgyrchu dros degwch i ddefnyddwyr yng Nghymru. Ymhlith y meysydd o ddiddordeb a rennir mae'r angen i ddeall y ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau cyngor ledled Cymru yn well a hyrwyddo gwell prosesau gwneud penderfyniadau gan y llywodraeth.

Tribiwnlysoedd

22. Trafodir ein hymwneud â'r rhai sy'n gysylltiedig â thribiwnlysoedd yng Nghymru o dan Amcan 2 isod.

Llys Gweinyddol yng Nghymru

23. Mae gennym ddiddordeb mewn sefydlu cyfleusterau llys gweinyddol yn y **Ganolfan Cyfiawnder Sifil** yng Nghaerdydd ym mis Ebrill 2009. Bu dau o'n haelodau yn bresennol mewn cyflwyniad anffurfiol ar y trefniadau ar gyfer y Llys Gweinyddol yng Nghymru ym mis Mehefin 2008. Hefyd, ym mis Mawrth 2009 cyfarfu ein Cadeirydd â chynrychiolwyr barnwriaeth y Llys Gweinyddol. Roeddem yn falch o glywed y pwyntiau canlynol:
- Bydd trefniadau cadarn ar gyfer trosglwyddo achosion o Lundain i Gaerdydd am wrandawriad yng Nghymru, gyda rhagdybiaeth y caiff achosion sydd â chyswllt â Chymru eu gurando yng Nghymru fel arfer
 - Bydd darpariaeth ar gyfer gurando achosion mewn lleoliadau addas ledled Cymru
 - Bydd nifer dda o staff gan y llys, gyda dau o'r saith barnwr dynodedig yn siaradwyr Cymraeg.

Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg

24. Rydym yn cael ein cynrychioli ar Bwyllgor Sefydliad yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg. Diben y Pwyllgor yw sicrhau bod y gwahanol gyrff sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn mabwysiadu polisiâu cyffredin ar gyfer yr iaith Gymraeg ac yn gweithredu Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn yr un modd. Bu un o'n haelodau yn bresennol yn y ddau gyfarfod a gynhaliwyd gan y grŵp hun dros y flwyddyn ddiwethaf.

25. Mae'r Cyngor wedi argymhell protocol hyfforddiant i asiantaethau cyfiaunder yng Nghymru i ledaenu'r arfer da a ddatblyguwyd (er enghraifft gan Heddlu Gogledd Cymru) i hyfforddi staff mewn materion o ran yr iaith Gymraeg. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi croesawu'r adroddiad gan Ei Anrhydedd y Barnwr Philip Hughes (Barnwr Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol Gogledd Cymru) a'i Anrhydedd y Barnwr Wyn Rees (Barnwr Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol De Cymru) ar *Courts and Community Relations in Wales*. Nodwyd hefyd y rhwystredigaethau a achosir gan y systemau technoleg gwybodaeth presennol o ran darparu gwasanaethau dwyieithog ymhlith sawl un o'r asiantaethau cyfiaunder.

Canolbwyntio ar y Dinesydd

Rhaid datblygu'r berthynas rhwng dinasyddion a'r gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd effeithiol, a hynny ar frys... mae angen trawsnewid y mecanweithiau ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgysylltu â nhw...

Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd, Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol: Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru, 2006 t.57

Mae hygyrchedd ac enw da yn dibynnu ar y deialog parhaus hwn â dinasyddion sydd wedi cael gwybodaeth ddigonol. Dylai hyn gynnwys prosesau syml a chyflym ar gyfer cwyno ac unioni. Mae'n rhaid i sefydliadau fod yn ddigon aeddfed i ymddiheuro pan aiff pethau o'u lle, adfer y sefyllfa ac unioni mewn modd addas.

Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd, Adolygiad o Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol: Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru, 2006, t.58

26. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd tuag at wasanaethau cyhoeddus. Rydym o'r farn bod nifer o synergeddau rhwng y nod polisi hwn a'n rôl a'n cylch gwaith, yn enwedig y ffocus ar y canlynol:
- **Prosesau ar gyfer gwneud iawn yn gyflym ac yn briodol**, sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sicrhau bod systemau cwyno a gwneud iawn yn syml, yn hygyrch ac yn gyson ar draws ffiniau sefydliadol a sectoraidd
 - Ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sy'n ymgorffori anghenion defnyddwyr gwasanaethau fel y brif ystyriaeth

- Gwasanaethau cydgysylltiedig, wedi'u personoli ac o safon uchel, wedi'u cynllunio ar draws ffiniau sefydliadol
- Diwylliant sefydliadol a gallu gwasanaethau cyhoeddus gwell
- **Dinasyddion guybodus** sy'n gallu mynegi eu disgwyliadau, eu profiadau a'u hanghenion ym mhob rhan o'r llywodraeth mewn ffordd ystyrlon ac amrywiol.

27. Rydym wedi dechrau ymdrin â'r materion hyn yn ddiweddar mewn cyfarfod ym mis Ebrill 2009 gyda swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried systemau ymdrin â chwynion ym mhob rhan o'r llywodraeth. Disgwyliwn wneud cynnydd pellach ar y flaenoriaeth hon dros y flwyddyn sydd i ddod, a 'Canolbwyntio ar y Dinesydd' yw thema ein cynhadledd ym mis Mehefin 2009.

Amcan 2: Adolygu gwaith y tribiwnlysoedd a'r ymchwiliadau sy'n gweithredu yng Nghymru

It should never be forgotten that tribunals exist for users, and not the other way round. No matter how good tribunals may be, they do not fulfil their function unless they are accessible to the people who want to use them, and unless the users receive the help they need to prepare and present their cases.

Tribunals for Users: One System, One Service: Report of the Review of Tribunals by Sir Andrew Leggatt, Mawrth 2001, t.6

EIN RÔL

Fe'n penodwyd gan Weinidogion Cymru⁷ i ymgymryd â'r swyddogaethau statudol a ganlyn:

- adolygu a chyflwyno adroddiadau ar gyfansoddiad y tribiwnlysoedd a restrir a'r ffordd y maent yn gweithredu⁸ sy'n gweithredu yng Nghymru yn gyffredinol, a phob tribiwnlys o'r fath
- ystyried a chyflwyno adroddiad ar unrhyw fater sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd a restrir sy'n gweithredu yng Nghymru sydd o bwys arbennig yn ein barn ni
- ystyried a chyflwyno adroddiad ar unrhyw fater penodol sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd a gyfeirir atom gan Weinidogion Cymru neu'r Arglwydd Ganghellor⁹.

Mae gennym swyddogaethau tebyg mewn perthynas ag ymchwiliadau statudol¹⁰.

⁷ *Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007*, Atodlen 7, para 7.

⁸ 'Tribiwnlysoedd a restrir' yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlys a sefydlwyd gan *Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007* a thribiwnlysoedd a restrir drwy orchymynion a wnaed gan yr Arglwydd Ganghellor, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban. Mae'n rhaid ymgynghori â'r Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd cyn y gwneir unrhyw reolau gweithdrefnol ar gyfer unrhyw dribiwnlys a restrir ac eithrio'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. Cynrychiolir y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ar y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd sy'n gwneud reolau gweithdrefnol ar gyfer y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys.

⁹ *Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007*, Atodlen 7, para 14.

¹⁰ *Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007*, Atodlen 7, para 15. Ystyr 'ymchwiliad statudol' yw ymchwiliad neu wrandawriad a gynhelir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â dyletswydd statudol, neu ymchwiliad neu wrandawriad dewisol a gynhelir ar ran Gweinidogion Cymru sydd wedi'i ddynodi gan orchymyn o dan *Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992*.

Mae gennym hefyd yr hawl i fod yn bresennol (fel sylwedydd) yng ngweithrediadau tribiwnlys a restrir neu ymchwiliad statudol, gan gynnwys gwrandawiadau a gynhelir yn breifat a gweithrediadau nad ydynt ar ffurf gwrandawriad.

EIN BLAENORIAETHAU

Er mwyn cyflawni Amcan 2, ein prif flaenoriaethau ar gyfer 2008/09 oedd:

- Dechrau adolygu tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru
- Nodi materion sy'n benodol i Gymru yng ngwaith y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a chreu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys
- Cytuno ar raglen o ymweliadau a chyfarfodydd â rhanddeiliaid a fydd yn ddigon i hysbysu aelodau a thynnu sylw'r rhai sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd at fodolaeth y Pwyllgor
- Arsylwi ar wrandawiadau tribiwnlys wedi'u datganoli a heb eu datganoli

EIN GWEITHGAREDDAU

Adolygiad o'r Tribiwnlysoedd yng Nghymru

1. Ym mis Tachwedd 2008 dechreuwyd adolygu tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru, o ganlyniad i sylwi ar:
 - **natur gymhleth a darniog** y system tribiwnlysoedd yng Nghymru, gyda gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae'r gwahanol dribiwnlysoedd datganoledig yn gweithredu ac yn cael eu gweinyddu
 - enghreifftiau o ddiwygiadau i dribiwnlysoedd datganoledig yn cael eu hystyried mewn ffordd *ad hoc* ac anghydgysylltiedig.
 - **diffyg annibyniaeth** ymddangosiadol Tribiwnlysoedd yng Nghymru, gyda'r cyfrifoldeb am dribiwnlysoedd a'r ffordd y maent yn cael eu gweinyddu yn nwylo'r rhai y mae dyletswydd ar y tribiwnlys i ystyried eu polisiau neu eu penderfyniadau.
2. Rydym wedi mabwysiadu'r fethodoleg ganlynol wrth gynnal yr adolygiad:
 - Ymchwil i dribiwnlysoedd datganoledig a rhai heb eu datganoli gyda'r nod o gasglu gwybodaeth fanwl a chyson am y tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru
 - Llunio safonau ac egwyddorion cyffredinol i dribiwnlysoedd
 - Dadansoddiad o'r tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru yn erbyn safonau ac egwyddorion arfer gorau
 - Ystyriaeth o ddiwygiadau posibl.

3. Yn ystod y rhan gyntaf o 2009, dechreuwyd ymchwil fanwl i'r ffordd y mae tribiwnlysoedd yng Nghymru yn gweithredu. Lluniwyd holiadur safonol gennym, a ddosbarthwyd i amrywiaeth o gynrychiolwyr tribiwnlysoedd a llywodraeth yn gofyn am wybodaeth am faterion megis strwythur tribiwnlysoedd, penodiadau, llwyth achosion, hyfforddiant a darpariaeth iaith Gymraeg. Rydym hefyd wedi dechrau ystyried egwyddorion cyffredinol i dribiwnlysoedd, yn seiliedig ar hawliau dynol ac egwyddorion cyfiawnder naturiol, a diwygiadau i dribiwnlysoedd mewn awdurdodaethau eraill. Rydym yn ystyriol o gyd-destun unigryw Cymru y mae tribiwnlysoedd datganoledig yn gweithredu ynddo, a byddwn yn ymwybodol o hyn wrth ystyried diwygiadau posibl.
4. Ein nod yw paratoi adroddiad awdurdodol a chynhwysfawr ar Dribiwnlysoedd yng Nghymru i Weinidogion Cymru yn hydref 2009. Bydd yr adroddiad yn rhoi sylfaen dystiolaeth i'w gwneud yn bosibl i wella'r ffordd y gweinyddir tribiwnlysoedd yng Nghymru drwy nodi cynigion ar gyfer newidiadau i bolisi ac arfer.

Y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys yng Nghymru

The new tribunal system is a significant provider of justice in...Wales... So far as is consistent with the limits of my statutory role, I will work with judicial and administrative agencies to promote as far as possible a consistent approach to tribunal justice across the country as a whole, while ensuring that the services provided by the new tribunals system for which I will be directly responsible are sensitive to the distinctive needs and interests of the different parts of the UK.

Adolygiad Gweithredu Cyntaf Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, Mehefin 2008, t.5

5. Mae tribiwnlysoedd ym Mhrydain Fawr a gynorthwyir gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn gweld cyfnod o ddiwygio mawr o ganlyniad i *Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007*, gan gynnwys:
 - Creu strwythur tribiwnlysoedd unedig
 - Creu'r Uwch Dribiwnlys, gan arwain at hawliau apelio newydd ac wedi'u rhesymoli
 - Sefydlu swydd Uwch Lywydd fel uwch swydd farnwrol annibynnol i gynnig ffocus ac arweiniad i dribiwnlysoedd a gwmpesir gan y Ddeddf
 - Y gallu i 'gyfnewid' a phenodi barnwyr ac aelodau tribiwnlysoedd ar draws awdurdodaethau gwahanol.

6. Fel rhan o'r broses ddiwygio, ar 3 Tachwedd 2008 sefydlwyd dau dribiwnlys unedig newydd, sef Tribiwnlys Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlys. Ar y dechrau, roedd y tribiwnlysoedd hyn yn cynnwys:
 - Y Tair Siambr Haen Gynaf - Hawl Gymdeithasol; Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol; Pensiynau Rhyfel ac Iauddal i Aelodau o'r Lluoedd Arfog;
 - Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys.
7. Bydd ail gam y broses o uno tribiwnlysoedd yn digwydd yn raddol o fis Ebrill 2009. Bydd y cam hwn yn cynnwys:
 - Trosglwyddo a diwygio tribiwnlysoedd treth a thollau
 - Tribiwnlys Tiroedd yn symud i'r Uwch Dribiwnlys
 - Sefydlu'r Siambr Reoleiddio Gyffredinol (sef y tribiwnlysoedd rheoleiddio gan gynnwys apeliadau Gwerthwyr Tai; Tribiwnlys Apeliadau Credyd Defnyddwyr; Tribiwnlysoedd Gwybodaeth ac Elusennau).
8. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu na fydd y tribiwnlysoedd datganoledig yn ymuno â'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd na'r strwythur tribiwnlysoedd unedig newydd. Fodd bynnag, mae awdurdodaethau nas datganolwyd y strwythur tribiwnlysoedd newydd yn gweithredu yng Nghymru, er enghraifft, awdurdodaeth nawdd cymdeithasol a chymorth i blant y Siambr Hawl Gymdeithasol a'r awdurdodaethau treth a thollau.
9. Pan gaiff hawl newydd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys ei chreu yn Lloegr mewn perthynas â thribiwnlys sy'n ymuno â'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, bydd apeliadau o'r Tribiwnlys cyfatebol yng Nghymru hefyd fel arfer yn mynd i'r Uwch Dribiwnlys¹¹. Felly, pan drosglwyddodd awdurdo-daethau'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SENDIST) yn Lloegr a'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl (MHRT) yn Lloegr i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf gyda hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar 3 Tachwedd 2008, sefydlwyd hefyd hawl i apelio o'r tribiwnlysoedd cyfatebol yng Nghymru i'r Uwch Dribiwnlys.
10. Rydym wedi cyfarfod â **Rheolur Ardal Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru a De-orllewin Lloegr** ddwywaith i drafod effaith diwygio tribiwnlysoedd y DU yng Nghymru. Rydym wedi ystyried y materion canlynol:
 - Sefydlu canolfan gwrandawiadau'r Uwch Dribiwnlys yng Nghaerdydd er mwyn sicrhau hygyrchedd i ddefnyddwyr yng Nghymru a, bod modd gwrando apeliadau o dribiwnlysoedd yng Nghymru megis TAAAC.
 - Argaeledd canolfannau gwrandawiadau'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yng Nghymru
 - Gallu'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn yr iaith Gymraeg.
11. Rydym wedi rhoi cyngor i'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ar faterion Cymreig penodol sy'n ymwneud â rheolau gweithdrefnol drafft y tribiwnlys Haen gyntaf, yn benodol y goblygiadau o ran yr iaith Gymraeg.

¹¹ Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, a32.

Arsylwi ar Wrandawiadau Tribiwnlys

12. Rydym wedi arfer ein hawl statudol i fod yn bresennol (fel sylwedydd) yng ngweithrediadau tribiwnlysoedd a restrir ar sawl achlysur. Ceir rhestr lawn o'n hymweliadau â thribiwnlysoedd yn Atodiad D. Diben yr ymweliadau hyn yw ein galluogi i:
 - weld y tribiwnlysoedd ar waith, ac arsylwi ar brofiadau defnyddwyr tribiwnlysoedd
 - siarad ag aelodau a staff tribiwnlysoedd ac esbonio ein gwaith
 - ymgyswgu â'r problemau a wynebir gan dribiwnlysoedd yng Nghymru, er mwyn cynghori Gweinidogion Cymru a'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.
13. Nodwyd materion penodol o arsylwi ar weithrediadau'r Adolygiad Annibynnol o Baneli Dyfarnu. Sefydliad y Paneli hyn yn 2006 i adolygu dyfarniadau asiantaethau mabwysiadu ynghylch a yw unigolyn yn addas i fabwysiadu plentyn¹². Ar sail ein hymweliadau â'r paneli hyn, ysgrifennwyd at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn mynegi ein pryderon ynglyn â'r diffyg canllawiau gweithdrefnol i aelodau paneli. Roeddem yn falch o gael ymateb cadarnhaol gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol a ymrwymodd i baratoi canllawiau gweithdrefnol a hyfforddiant i aelodau.

Meithrin Cydberthnasau

14. Rydym wedi cael cyfarfodydd cychwynnol â'r rhan fwyaf o arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru ac wedi bod i nifer o gynadleddau tribiwnlysoedd a digwyddiadau hyfforddiant. Ceir manylion yn Atodiad D.

Hyfforddiant

15. Mae nifer o'n rhanddeiliaid mewn tribiwnlysoedd wedi codi mater hyfforddiant i aelodau a barnwriaeth Tribiwnlysoedd Cymru gyda ni, yn enwedig:
 - Cyllidebau hyfforddiant a bennwyd gan adrannau unigol ac awdurdodau lleol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig, sydd wedi arwain at anghysondeb yn y ffordd y rhoddir hyfforddiant yn y tribiwnlysoedd. Teimlwyd hefyd nad oes fawr o ddealltwriaeth o anghenion hyfforddiant aelodau tribiwnlysoedd gan adrannau'r llywodraeth mewn rhai achosion, gan nad yw tribiwnlys ond yn rhan fach o'u gwaith, ac nis ystyrir yn rhan o 'fusnes craidd'.
 - Mae arfer rhai tribiwnlysoedd yng Nghymru o rannu hyfforddiant â thribiwnlysoedd cyfatebol yn Lloegr wedi dod yn fwy anodd yn sgîl symud rhai awdurdodaethau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn Lloegr

¹² Er bod y tribiwnlysoedd hyn yn dribiwnlysoedd a restrir at ddiben Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, nid ydynt yn awdurdod apêl ac ni allant wrthdroi dyfarniadau asiantaethau mabwysiadu. Maent yn gwneud argymhelliad ar ôl adolygu'r wybodaeth gerbron y panel mabwysiadu gwreiddiol; ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall a dderbyniwyd gan yr asiantaeth fabwysiadu ar ôl gwrandawriad y panel gwreiddiol; a seiliau'r ceisydd dros ofyn am yr adolygiad. Yna mae'n rhaid i'r panel mabwysiadu gwreiddiol ystyried yr argymhelliad hun wrth wneud ei benderfyniad terfynol.

- Anghenion hyfforddiant iaith Gymraeg penodol, gan gynnwys hyfforddiant mewn terminoleg dechnolegol a chyfreithiol yn Gymraeg.
16. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, cysylltwyd â'r **Burdd Astudiaethau Barnwrol** ym mis Rhagfyr 2008 ac ers hynny rydym wedi cyfarfod ddwywaith â Chyfarwyddwr Hyfforddiant Tribiwnlysoedd y Burdd. Rydym yn cefnogi cynnig y Burdd i gynnal gwerthusiad o hyfforddiant mewn tri thribiwnlys yng Nghymru - Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, TAAAC a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Bwriadwn ddilyn y broses hon yn fanwl yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a byddwn yn edrych ymlaen at weld canlyniadau'r dadansoddiad.
 17. O ystyried y nifer gymharol fach o aelodau tribiwnlysoedd yng Nghymru, teimlwn fod cyfle yng Nghymru i gynnal sesiynau hyfforddi ar y cyd a fyddai'n cynnwys gwahanol dribiwnlysoedd yng Nghymru ar faterion cyffredinol megis crefft barnwr, cydraddoldeb ac amrywiaeth a datblygu medrusrwydd i ymdrin â materion technegol yn y Gymraeg. Er nad ydym yn gallu rhoi'r hyfforddiant hwn ein hunain, rydym yn awyddus i wneud popeth o fewn ein gallu i'w hyrwyddo a'i annog.

Grwpiau Defnyddwyr Tribiwnlysoedd

18. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn adborth gan ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ac rydym wedi mynd i gyfarfodydd grwpiau defnyddwyr **Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru** (TAAAC) a'r **Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo**.
19. Gwnaeth defnyddioldeb Grŵp Defnyddwyr TAAAC, sy'n cynnal cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn mewn tri lleoliad rhanbarthol ledled Cymru, argraff arnom. Ymddengys fod cryn nifer o gynrychiolwyr o awdurdodau lleol a'r gwasanaethau eiriolaeth sy'n cynorthwyo teuluoedd plant ag anghenion addysgol arbennig, yn ogystal â rhieni eu hunain yn mynychu. Maent yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth ac adborth i'r tribiwnlys, yn ogystal â chyfle i rwydweithio a thrafod rhwng cynrychiolwyr. Er mwyn tynnu sylw at yr enghraifft dda hon, cyhoeddwyd erthygl gan Ysgrifennydd y tribiwnlys yn rhifyn Mawrth 2009 o *Adjust*, sef e-gylchlythyr y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.
20. Ar y llaw arall, gwelwyd nad oedd llawer o ddefnyddwyr y Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn mynychu cyfarfodydd Grŵp y Defnyddwyr, ac felly nad oedd yn ddefnyddiol iawn. Bwriadwn edrych yn fanylach ar Grwpiau Defnyddwyr Tribiwnlysoedd dros y flwyddyn sydd i ddod.

Amcan 3: Ymateb yn awdurdodol i faterion sy'n codi a chynigion

EIN RÔL

Fe'n penodwyd gan Weinidogion Cymru¹³ i wneud y canlynol wrth arfer ein swyddogaethau statudol:

- ymateb i ymgynghoriadau ar reolau gweithdrefnol ar gyfer tribiwnlysoedd ag awdurdodaeth yng Nghymru¹⁴
- ymateb i ymgynghoriadau ar reolau gweithdrefnol ar gyfer ymchwiliadau statudol a gynhelir yng Nghymru¹⁵
- craffu ar ddeddfwriaeth, sy'n bodoli eisoes neu sy'n arfaethedig, sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru a gwneud sylwadau arni¹⁶.

Mae elfen fawr o'n gwaith yn adweithiol, mewn ymateb i waith a wneir gan eraill ar y system cyfiaunder gweinyddol, tribiwnlysoedd ac ymchwiliadau. Wrth gyflawni ein rôl o gynghori Gweinidogion Cymru a'r Arglwydd Ganghellor ar gyfiaunder gweinyddol, tribiwnlysoedd ac ymchwiliadau yng Nghymru, byddwn yn ymateb yn adeiladol ac yn awdurdodol i ymgynghoriadau statudol perthnasol ac ymgynghoriadau eraill.

EIN BLAENORIAETHAU

Er mwyn cyflawni Amcan 3, ein prif flaenoriaethau yn 2008/09 oedd:

- Monitro cyfiaunder gweinyddol yng Nghymru, er mwyn bod yn ymwybodol o faterion sy'n codi
- Nodi ac ymateb fel y bo'n briodol i ddeddfwriaeth ddrafft yng Nghymru ac sy'n ymwneud â Chymru
- Ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus a mentrau eraill yng Nghymru.

¹³ Ddedf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Atodlen 7,a7.

¹⁴ Ddedf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Atodlen 7, para 24

¹⁵ Ddedf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992, a9, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Atodlen 8, para 28

¹⁶ Ddedf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Atodlen 7, para 14(2)

EIN GWEITHGAREDDAU

1. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymateb i nifer o ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac ymgynghoriadau eraill. Mae copïau o rai o'n hymatebion i ymgynghoriadau ar gael ar wefan y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (www.ajtc.gov.uk). Un o'r prif heriau a wynebwyd gennym fu monitro cyfiaunder gweinyddol er mwyn bod yn ymwybodol o faterion sy'n codi ac ymgynghoriadau arfaethedig. Mae cyfiaunder gweinyddol yng Nghymru yn agwedd ymylol ar waith y rhan fwyaf o adrannau'r Llywodraeth. Nid oes gan yr un adran na thîm yn Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldeb cyffredinol am faterion cyfiaunder gweinyddol. Rydym wedi dechrau codi ein proffil a datblygu ein rhwydweithiau fel y bydd rhanddeiliaid yn cysylltu â ni pan fydd materion yn codi.

Ymatebion i Ymgynghoriadau

Ombudsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd: Egwyddorion Ymdrin â Chwynion yn Dda

2. Ym mis Awst 2008 ymatebwyd i ymgynghoriad Ombudsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd ynglyn â'r *Egwyddorion Ymdrin â Chwynion yn Dda* arfaethedig. Datganiadau cyffredinol yw'r egwyddorion am y ffordd y dylai cyrff o fewn awdurdodaeth Ombudsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd ymdrin â chwynion am y gwasanaeth gan eu cwsmeriaid, aelodau'r cyhoedd neu sefydliadau cleient eraill ym marn yr Ombudsmon. Cytunwyd â'r neges gref drwy'r papur na ddylai rheoli cwynion fod yn ôl-ystyriaeth, ond yn hytrach dylai fod yn rhan annatod o'r ffordd y mae sefydliad yn darparu gwasanaeth.
3. Er mwyn sicrhau bod proses ymdrin â chwynion yn arwain at welliant parhaus a phenderfyniadau gwell yn y lle cyntaf, awgrymwyd y gallai'r ddogfen gael ei hymestyn i nodi arferion i sicrhau bod ymdrin â chwynion yn dda yn rhan ganolog o ddiwylliant sefydliad. Er enghraifft, drwy raglenni hyfforddiant a chysylltu'r broses o ymdrin â chwynion â chymhellion neu anghymhellion sy'n effeithio ar ymddygiad a pherfformiad unigolion. Nodwyd hefyd gennym y gellid gwneud *Egwyddor 6* – ceisio gwelliant parhaus – yn fwy cadarn drwy gynnwys gofyniad ar gyrff cyhoeddus i gyhoeddi eu dadansoddiad o wersi a ddysgwyd oddi wrth gwynion yn eu hadroddiadau blynyddol.

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru: Rheolau Gweithdrefnol

4. Ym mis Medi 2008 ymgynghorwyd â ni ynglyn â rheolau gweithdrefnol newydd ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Un o'r rhesymau dros gyflwyno'r Rheolau newydd oedd rhoi mynediad cyfartal at gyfiaunder yng Nghymru a Lloegr drwy sicrhau bod hawl newydd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys, a gyflwynwyd ar gyfer y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl yn Lloegr, hefyd ar gael yng Nghymru¹⁷.

¹⁷ Defnyddiwyd y pŵerau o fewn adran 32 o *Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007* i ddarparu ar gyfer apelïadau o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru i'r Uwch Tribiwnlys.

5. Wrth ystyried y rheolau drafft rhoddyd sylw arbennig i ddatblygu rheolau ar gyfer Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, sy'n gymwys i achosion adolygu iechyd meddwl yn Lloegr. Gwnaethom nifer o sylwadau manwl ynglyn â'r Rheolau, gan gynnwys:
 - y dylai'r prawf 'niwed difrifol' gael ei ddefnyddio i benderfynu ar atal datgelu dogfennau, yn hytrach na'r prawf a amlinellwyd yn y rheolau drafft *sef effeithio'n andwyol ar iechyd neu les y claf neu eraill*. Mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydbwyso hawl y claf o dan Erthygl 5 Siarter Hawliau Dynol Ewrop i gael gwrandawriad ac i herio cyfreithlondeb cadw o dan orchymyn â'r angen i ddiogelu'r claf neu eraill. Felly dylid rhagdybio bod pob darn o wybodaeth yn cael ei ddatgelu i'r claf oni bai bod rhesymau cryf dros beidio â gwneud hynny (h.y. y tebygolrwydd o achosi niwed difrifol) (Rheol 16).
 - ers blynyddoedd lawer mae'r Cyngor ar Dribiwnlysoedd, a'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd bellach, wedi mynegi pryder ynglyn â rôl ddeuol aelod meddygol y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl fel y sawl sy'n dod o hyd i'r ffeithiau a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, yn enwedig o safbwynt cleifion - h.y. beth fyddai'r effaith ar glaf o gael ei archwilio gan yr aelod meddygol cyn gwrandawriad y tribiwnlys. Ein dadl ni, er mwyn 'llunio barn' am gyflwr meddwl y claf oedd bod yn rhaid i'r aelod meddygol archwilio cofnodion meddygol y claf, ond nad yw'n angenrheidiol o bosibl iddynt archwilio'r claf ym mhob achos (Rheol 19).

Rhoi'r Hawl i Apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru i Blant

6. Ym mis Hydref 2008 ymatebwyd i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar roi'r hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) i blant. Ar y cyfan roeddem yn gefnogol i'r cynnig i roi'r hawl i apelio i TAAAC i blant, o dan amgylchiadau penodol, yn enwedig plant 'sy'n derbyn gofal', sy'n agored iawn i niwed, yn ein barn ni.
7. Er mwyn i'r cynnig lwyddo teimlwyd bod angen iddo gael ei weithredu'n ofalus mewn ymgynghoriad agos â rhanddeiliaid allweddol. O ystyried natur arloesol y cynigion, awgrymwyd cynnal cynllun peilot gyda grŵp penodol, megis plant 'sy'n derbyn gofal', neu mewn ardal ddaearyddol benodol. Hefyd, teimlwyd mai penderfynydd mawr llwyddiant y polisi fyddai ansawdd a hygyrchedd y gwasanaeth eiriolaeth annibynnol.
8. Gwnaethom ymateb hefyd i ymgynghoriad ymhellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn â chaniatáu i blant wneud hawliad o wahaniaethu ar sail anabled i TAAAC. Unwaith eto, roeddem yn gefnogol ar y cyfan i'r cynnig, ond roeddem yn credu y dylai'r hawl hon i blant gael ei hestyn i hawliadau gwahaniaethu ar sail anabled sy'n ymwneud â derbyniadau i ysgolion a gynhelir gan AALLau, a gwaharddiadau parhaol ohonynt.

9. Er mwyn ein helpu i ddeall y materion a wynebir gan ddefnyddwyr TAAAC, ym mis Medi 2008 cyfarfuom â chynrychiolwyr SNAP Cymru, sef elusen sy'n cynnig gwybodaeth a chymorth i deuluoedd plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Roeddem yn cytuno â'u cyngor y gallai mwyl o gyfranogiad ystyrlon gan blant mewn prosesau AAA (fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3 o'r Cod Ymarfer AAA) arwain at benderfyniadau AAA mwyl cydsyniol, a llai o apeliadau (gan rieni a phlant fel ei gilydd).

Ad-drefnu Tribiwnlysoedd Prasio Cymru

10. Ym mis Tachwedd 2008 gwnaethom ymateb i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn â chynigion i ad-drefnu strwythur y Tribiwnlysoedd Prasio yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu un Tribiwnlys Prasio i Gymru, gyda Llywydd ac Is-Lywyddion. Yn benodol, gwnaethom sylwadau ar rai egwyddorion cyffredinol a chyfarfu ein Cadeirydd â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ym mis Mawrth 2009 i drafod ein pryderon.
11. Er ein bod yn croesawu'n fawr y cynnig i sefydlu un Tribiwnlys Prasio i Gymru gyda Llywydd Cenedlaethol, ein teimlad oedd bod Gweinidogion mewn perygl o golli cyfle i wneud diwygiadau mwyl radical i system y Tribiwnlysoedd Prasio. Yn ein barn ni, ni fyddai'r newidiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd mewn Tribiwnlysoedd Prasio yn Lloegr, gan gynnwys penodi Llywydd ac Is-Lywyddion ac aelodau gan yr Arglwydd Ganghellor, ond yn tynnu sylw at y system lawer llai annibynnol yng Nghymru.
12. Teimlwyd bod creu un Tribiwnlys Prasio i Gymru yn welliant ar y sefyllfa sydd ohoni ac y gallai gynnig arweiniad barnwrol gwell a hyrwyddo gwell safonau o ran gwneud penderfyniadau, chysodeb o ran gweithredu a lledaenu arfer gorau. Fodd bynnag, credid hefyd y byddai rhagor o ddiwygiadau yn fanteisiol, gan gynnwys:
- Penodi aelodau tribiwnlys yn dilyn proses ddewis annibynnol ar sail teilyngdod er mwyn atgyfnerthu annibyniaeth y tribiwnlys, gwneud y system benodi yn fwy tryloyw a sicrhau mwyl o gydlyniaeth.
 - Sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng nifer yr aelodau tribiwnlys a'r llwyth gwaith gwirioneddol a'r llwyth gwaith a ragwelir mewn gwrandawriadau fel y gall aelodau gymryd rhan yn rheolaidd mewn gwrandawriadau.
 - Cyflwyno apeliadau'n uniongyrchol i'r Tribiwnlys Prasio, yn hytrach na thrwy'r corff y mae ei benderfyniad yn cael ei herio (Asiantaeth y Swyddfa Brasio), er mwyn dangos annibyniaeth y system apêl.
13. Yn ein barn ni, byddai llywydd cenedlaethol yn gallu rhoi arweiniad mwyl effeithiol a dylai'r llywydd ac unrhyw Is-Lywyddion gael eu penodi gan Weinidogion Cymru gyda thelerau penodi eglur ac amlinelliad o'u pwerau a'u dyletswyddau.

Apeliadau mewn perthynas â Derbyniadau Ysgol

14. Ym mis Rhagfyr 2008 gwnaethom ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn â chynigion ar dderbyniadau ysgol, apeliadau mewn perthynas â derbyniadau ysgol a rheoliadau cysylltiedig. Yn ein barn ni, roedd strwythur cyffredinol y Cod Derbyniadau yn rhesymegol ac yn hawdd ei ddilyn a gwnaeth drafftio clir y Cod argraff arbennig arnom. Gwnaethom y sylwadau canlynol:
- Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod hyfforddiant gorfodol i aelodau paneli wedi cael ei gynnwys yn y Cod ar Apeliadau mewn perthynas â Derbyniadau, hoffem fod wedi gweld y gofyniad hwn yn cael ei bennu mewn deddfuriaeth
 - Byddai'n ddefnyddiol sôn y bydd apelyddion heb gynrychiolaeth o dan anfantais ac y bydd y Cadeirydd yn aml yn gorfod ymgymryd â rôl "galluogi" i helpu rhieni a/neu bobl ifanc
 - Dylai fod cyfeiriad at yr angen i rieni a phobl ifanc gael manylion pellach am ble y gallant gael rhagor o wybodaeth, cyngor, a chymorth ac angen posibl am gyngor penodol wedi'i dargedu at bobl ifanc.

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru: Cynllun Iaith Gymraeg

15. Ym mis Chwefror 2009, cyflwynwyd sylwadau ar Gynllun Iaith Gymraeg drafft TAAAC. Roeddem yn croesawu'r cynllun yn fawr, gan awgrymu y byddai'n ddoeth darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle mae unigolyn yn dymuno annerch gwrandawriad yn Gymraeg heb rybudd ymlaen llaw. Teimlwyd hefyd y byddai'n fuddiol pe bai'r Cynllun yn cyfeirio'n benodol at hyfforddiant iaith Gymraeg, fel y'i cynhwyswyd yn y Cynllun Iaith Gymraeg i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru)

16. Ym mis Chwefror 2009 ymgynghorwyd â ni ynglyn â Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru). Roedd y rheolau newydd hyn yn cyfuno dwy set o reolau a oedd yn bodoli eisoes ac yn gymwys i Gymru a Lloegr yn wreiddiol, ond sy'n gymwys i Gymru yn unig bellach. Cafwyd nifer o addasiadau i adlewyrchu'r sefyllfa ar ôl datganoli, a diweddarwyd peth o'r derminoleg a ddefnyddir. Mynegwyd ein boddhad cyffredinol gyda'r Rheolau hyn.

Adolygiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Adolygiad o System Gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol

17. Ym mis Ionawr 2009 cawsom ar ddeall fod Eskrigge Social Research, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ymgymryd ag adolygiad o'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion ynglyn â gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gyda ffocus ar effeithiolrwydd Paneli Cwynion Annibynnol Cam 3.
18. Cofrestrwyd ein diddordeb â Llywodraeth Cynulliad Cymru a gofynnwyd sut orau y gallem gyfrannu at yr adolygiad. O gofio bod gennym gyfrifoldeb statudol am oruchwylio Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol (Paneli Cam 3) roeddem yn siomedig nad ymgynghorwyd â ni yn gynt.

19. Rhoddodd Eskrigge Social Research gyfle i ni gwblhau holiadur ar-lein a hefyd gofynnodd am buyntiau allweddol o ran egwyddorion gweithdrefnau cwyno a gweinyddu systemau cwyno. Cawsom wybod y byddai'r adolygiad yn cynnwys y canlynol:
- Gwerthuso'r broses gwyno, yn enwedig effeithiolrwydd gweithredol paneli cam 3 drwy graffu ar dystiolaeth o anfonlonrwydd, dadansoddi holiaduron boddhad, adroddiadau cam 3 a'r dystiolaeth o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
 - Ystyried y ffordd orau o gysoni'r adnoddau i'r cynllun â'r blaenoriaethau i wella safon y paneli
 - Asesu'r risgiau a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella
 - Ystyried a fyddai penodi clerc ar baneli cam 3 o gymorth o ran nodau polisi'r broses gwyno. Os felly, nodi rôl a chyfrifoldebau'r clerc a datblygu achos busnes a phroses ar gyfer recriwtio a chyflogi'r sawl a benodir
 - Datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer ymdrin â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a allai gynnwys:
 - penodi aelodau paneli newydd
 - ailbenodi neu beidio ag ailbenodi aelodau paneli ar ddiwedd cyfnod eu penodiad
 - a ddylai fod cronfa ar wahân o gadeiryddion
 - rheoli perfformiad gan gynnwys cynlluniau sefydlu, gwerthuso a hyfforddi i aelodau lleyg ac arbenigol o baneli
 - cwynion ynglyn â'r paneli
 - mynd i'r afael ag anaddasrwydd aelodau paneli.
20. Rydym wedi cael cyfle yn ddiweddar i wneud sylwadau ar yr adroddiad drafft ar yr adolygiad, a byddwn yn ymhelaethu eto yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf.

Adroddiad ar yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb

21. Ym mis Mawrth 2009 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymateb¹⁸ i Adolygiad Cenedlaethol cynharach o Ymddygiad a Phresenoldeb¹⁹ gan nodi y bydd, ymhlith pethau eraill, yn:
- Asesu gwybodaeth a gasglwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ar waharddiadau anghyfreithlon a gwneud gwaith dilynol ar hynny
 - Paratoi canllaw ar y model newydd o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth a fydd yn galluogi Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i ystyried datblygu gwasanaethau eiriolaeth cyffredinol yn ogystal ag integreiddio gwasanaethau eiriolaeth arbenigol i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ar sail rhanbarth neu is-ranbarth

¹⁸ *Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb*, <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/schools/nbaractionplan/?lang=cy>

¹⁹ *Adroddiad ar yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb*, <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/educationandskillsnews/2233523/?lang=cy>

- Burw ymlaen â thrafodaethau am ddatblygu panel apêl annibynnol cenedlaethol yn lle'r rhai a sefydlir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol, o bosibl drwy ehangu rôl y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Gallai hyn helpu i sicrhau mwy o gysondeb o ran arfer ledled Cymru ac ar yr un pryd lleihau beichiau ar awdurdodau lleol i sefydlu paneli a hyfforddi'r rhai sy'n cymryd rhan ynddynt.
22. Gan fod gennym gyfrifoldeb penodol am oruchwylio Paneli Apêl annibynnol ar gyfer gwaharddiadau a TAAAC rydym yn disgwyl bod yn rhan o drafodaethau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiynydd Plant am y materion hyn dros y flwyddyn sydd i ddod.

Atodiad A: Aelodaeth o Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd



Yr Athro Syr Adrian Webb (Cadeirydd): Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda hyd at ddiwedd Mawrth 2008. Roedd hefyd yn aelod anweithredol o Fwrdd Gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru ond rhodduwyd y gorau i'r rôl hon ar ôl penodiad llwyddiannus yr Ysgrifennydd Parhaol newydd. Bu'n Is-Ganghellor Prifysgol Morgannwg hyd at fis Rhagfyr 2005. Bu gynt yn academydd yn Ysgol Economeg Llundain ac yn Athro Polisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Loughborough. Mae wedi bod yn aelod o sawl pwyllgor ac wedi ymgymryd â sawl rôl cyngori yn Whitehall ac yng Nghymru gan gynnwys Panel Cynhyrchiant Gwasanaethau Cyhoeddus Trysorlys EM, ac mae wedi cadeirio sawl ymchwiliad cenedlaethol. Bu'n aelod o'r Tim Adolygu a gyflwynodd adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 ar Ddarparu Gwasanaethau Lleol (Adolygiad Beecham) ac yn Gadeirydd yr adolygiad o Addysg Ôl-14 yng Nghymru (Adolygiad Webb, a gyhoeddwyd fel "Addewid a Chyflawniad" ym mis Rhagfyr 2007). Cafodd ei fagu yn Ne Cymru lle mae'n byw ar hyn o bryd.



Bob Chapman: Ymgynghorydd rheoli rhan-amser sy'n gweithio'n bennaf yn y sector cyfreithiol, ac Aelod o Fwrdd Llais Defnyddwyr Cymru. Ar ôl gweithio am 25 mlynedd ym maes gwaith cyngor mewn Canolfannau Cyngor ar Bopeth ac Unedau Hawliau Lles awdurdodau lleol ymunodd â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol lle daeth yn Gyfarwyddwr Cymru dros dro cyn ymddeol yn gynnar yn 2007. Mae'n llywodraethwr ysgol, a than yn ddiweddar bu'n aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Shelter Cymru (Welsh Housing Aid Ltd.)



Gareth Lewis: Aelod o'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth; Aelod o Gyngor Prifysgol Cymru a Chyfarwyddwr rhan-amser Swyddfa Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch. Bu gynt yn Ysgrifennydd Coleg Prifysgol, Caerdydd ac yn Ddirprwy Brifathro a Chlerc Bwrdd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.



Rhian Williams-Flew: Nyrs iechyd meddwl gymwysedig a gweithiwr cymdeithasol cofrestredig. Mae'n aelod o Gomisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl ac yn aelod o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Meddwl, Lloegr). Bu gynt yn ymchwilydd llawrydd i guynion a wnaed gan ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a gofaluwr ac yn Arolygydd Rheoliadol dros y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol.



Peter Tyndall: Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Aelod *ex officio* o Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Ef oedd Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru o 2001 hyd at 2008 a chyn hynny bu'n Bennaeth Addysg a Materion Diwylliannol yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.



Ann Abraham: Ombudsmon Senedd y DU ac Ombudsmon Gwasanaeth Iechyd Lloegr. Aelod *ex officio* o'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a'i Bwyllgor Cymreig a'i Bwyllgor yn yr Alban. Aelod *ex officio* o'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yn Lloegr. Cadeirydd Cymdeithas Ombudsmyn Prydain ac Iwerddon 2004-2006 ac yn aelod o'i Phwyllgor Dilysu ar hyn o bryd.

Atodiad B: Aelodaeth o'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a'i Bwyllgor yn yr Alban

Y CYNGOR CYFIAWNDER GWEINYDDOL A THRIBIWNLISOEDD

Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Newton o Braintree OBE, DL *Cadeirydd*
Yr Athro Alistair MacLeary *Cadeirydd Pwyllgor yr Alban*
Yr Athro Syr Adrian Webb *Cadeirydd y Pwyllgor Cymreig*
Jodi Berg (o 1 Rhagfyr 2008)
Yr Athro Alice Brown (o 1 Rhagfyr 2008)
Elizabeth Cameron
Sue Davis CBE
Penny Letts OBE
Steve D Mannion QPM (hyd at 9 Awst 2008)
Bronwyn McKenna
Bernard Quoroll
Yr Athro Geneva Richardson CBE
Dr Jonathan Spencer CB
Dr Adrian V Stokes OBE
Pat Thomas CBE
Brian Thompson
Ann Abraham*

Prif Weithredwr
Ray Burningham

PWYLLGOR Y CYNGOR CYFIAWNDER GWEINYDDOL A THRIBIWNLISOEDD YN YR ALBAN

Yr Athro Alistair MacLeary *Cadeirydd*
Lyndy Boyd (hyd at 30 Tachwedd 2008)
Elizabeth Cameron
Richard Henderson (o 1 Ionawr 2009)
Eileen Macdonald
Steve D Mannion QPM (hyd at 9 Awst 2008)
Michael Menlowe
Michael Scanlan (o 1 Ionawr 2009)
Audrey F Watson (hyd at 9 Awst 2008)
Ann Abraham*
Yr Athro Alice Brown** (hyd at 31 Mawrth 2009)

Ysgrifennydd
Debbie Davidson

* *ex officio* (fel Ombudsmon Senedd y DU)

** *ex officio* (fel Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban)

Atodiad C: Rhaglen Waith

AMCAN 1

Bydd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwlysoedd yn adolygu datblygiad Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwlysoedd yng Nghymru ac yn dylanwadu arno

Fel Pwyllgor newydd o'r Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwlysoedd, prif amcan ein Pwyllgor Cymreig yw cael dealltwriaeth o faes cyfiaunder gweinyddol yng Nghymru, a nodi a blaenoriaethu materion allweddol i Gymru.

I'r perwyl hwn, bydd ein Pwyllgor Cymreig yn:

- Mapio cyfiaunder gweinyddol yng Nghymru, gan gynnwys y berthynas rhwng Cymru, Lloegr a'r Deyrnas Unedig
- Mapio'r cymorth, y wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael i'r cyhoedd a defnyddwyr y system cyfiaunder gweinyddol yng Nghymru
- Nodi safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol ar y blaenoriaethau cynnar i Gymru.

Er mwyn dylanwadu ar ddatblygiad cyfiaunder gweinyddol a thriwlysoedd yng Nghymru bydd ein Pwyllgor Cymreig yn:

- Ceisio codi ymwybyddiaeth o gyfiaunder gweinyddol a rôl a gwaith y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwlysoedd a'r Pwyllgor Cymreig o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau defnyddwyr.
- Datblygu rhaglen o Gynadleddau Cyfiaunder Gweinyddol yng Nghymru, yn dechrau yn 2009.

Mae ein Pwyllgor Cymreig yn ymrwymedig i adeiladu ar y gwaith a wneir gan y Cyngor ar Driwlysoedd cyn i'r Pwyllgor ddod i fodolaeth, er enghraifft mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.

Yn 2008/09 bydd ein Pwyllgor Cymreig yn:

- Nodi ffyrdd posibl o wahanu pwerau mewn perthynas â thriwlysoedd datganoledig
- Trafod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru rôl gwneud iawn â dinasyddion drwy ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

AMCAN 2

Bydd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwilysoedd yn adolygu triwilysoedd datganoledig a'r rhai nas datganolwyd, a gwaith y Gwasanaeth Triwilysoedd fel y mae'n effeithio ar Gymru.

Bydd ein Pwyllgor Cymreig yn arwain y gwaith o oruchwyllo triwilysoedd sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig. Mae triwilysoedd sy'n gweithredu mewn meysydd nas datganolwyd hefyd yn eistedd yng Nghymru, y mae rhai ohonynt yn cael eu gweinyddu gan y Gwasanaeth Triwilysoedd. Bydd ein Pwyllgor Cymreig yn arwain y gwaith o oruchwyllo'r triwilysoedd hyn yng Nghymru.

I'r perwyl hwn, yn 2008/09 bydd ein Pwyllgor Cymreig yn:

- Cytuno ar raglen o ymweliadau a chyfarfodydd â rhanddeiliaid a fydd yn ddigon i hysbysu aelodau a thynnu sylw'r rhai sy'n ymwneud â thriwilysoedd at fodolaeth y Pwyllgor
- Ymweld â thriwilysoedd datganoledig a'r rhai nas datganolwyd
- Nodi a, lle y bo angen, fynd i'r fael â materion lleoliadau fel y maent yn effeithio ar driwilysoedd datganoledig a'r rhai nas datganolwyd yng Nghymru
- Nodi a, lle y bo angen, fynd i'r afael â materion sy'n benodol i Gymru yng ngwaith y Gwasanaeth Triwilysoedd
- Nodi a, lle y bo angen, fynd i'r afael â materion sy'n benodol i Gymru sy'n ymwneud â chreu a gweithredu'r Triwilysoedd Haen Gyntaf a'r Uwch Driwilysoedd.

AMCAN 3

Bydd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwilysoedd yn ymateb yn awdurdodol i faterion sy'n codi a chynigion sy'n effeithio ar gyfiaunder gweinyddol, triwilysoedd ac ymchwiliadau yng Nghymru neu sy'n ymwneud â hwy.

Bydd ein Pwyllgor Cymreig yn:

- Monitro cyfiaunder gweinyddol yng Nghymru, er mwyn bod yn ymwybodol o faterion sy'n codi
- Meithrin perthynas â Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill, er mwyn dylanwadu ar faterion cyfiaunder gweinyddol ar gam cynnar
- Nodi ac ymateb fel y bo'n briodol i ddeddfwriaeth ddrafft yng Nghymru a deddfwriaeth ddrafft sy'n ymwneud â Chymru
- Ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus a mentrau eraill yng Nghymru.

Atodiad Ch: Costau'r Pwyllgor Cymreig

Ariennir y Pwyllgor Cymreig drwy'r Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, sydd yn ei dro yn cael ei ariannu gan y Weinyddiaeth Gyfiaunder. Ariennir rhai costau, swyddfeydd, TG a gwasanaethau cyfrifyddu/y gyflogres yn benodol, yn ganolog ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfrif isod. Penderfynir ar gostau eraill, megis cyfraddau cyflog staff, yn ganolog ond fe'u telir o gyllideb y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Mae'r Pwyllgor yn cael ei gynorthwyo o Lundain ar hyn o bryd ac mae'r costau staff isod yn seiliedig ar yr amcangyfrif gorau o gyflogau/costau staff asiantaeth wedi'u dosrannu yn ôl amser a roddir i'r Pwyllgor.

Costau'r Pwyllgor Cymreig	2008/09
Costau Staff ¹	47,315
Taliadau Cadw Aelodau ²	14,242
Costau Teithio Aelodau ac ati ³	4,076
Costau Cyfarfodydd ⁴	2,430
Costau Gweinyddol, gan gynnwys cyflenwadau swyddfa, stampiau ⁵	-
Cyfansymiau	68,063

- ¹ Mae aelod o staff a leolir yn Llundain yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor Cymreig ac yn rhoi cymorth gweinyddol arall.
- ² O 31 Mawrth 2009 mae aelodau o'r Pwyllgor Cymreig yn cael tâl cadw o £6,314 yn seiliedig ar 22 diwrnod o waith y flwyddyn, Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cael cyflog o £27,611 gan gynnwys ei wasanaeth ar y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a rhoddir cyfrif amdano yn ei Adroddiad Blynyddol.
- ³ Treuliau aelodau i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor, ymweld â thribiwnlysoedd a mynd i ddiwyddiadau eraill.
- ⁴ Cost llogi ystafelloedd ac ati ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor.
- ⁵ Telir costau gweinyddol gan y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ac ni ellir eu nodi ar wahân.

Atodiad D: Cyfarfodydd ac Ymweliadau â Thriwilysoedd

O1 MEHEFIN 2008 – 30 EBRILL 2009

Cyfarfodydd y Pwyllgor Cymreig

3 Mehefin 2008	Caerdydd
9 Medi 2008	Caerdydd
18 Tach 2008	Llundain
9 Rhag 2008	Caerdydd
3 Maw 2009	Caerdydd

Tribunal Visits

Mehefin 2008*	Panel Apêl Derbyniadau Ysgol	Wrecsam
Gorff. 2008*	Tribiwnlys Cyflogaeth	Llundain
Gorff. 2008*	Tribiwnlys Apêl Nawdd Cymdeithasol a Chymorth i Blant	Llundain
Awst 2008	Adolygiad Annibynnol o Baneli Dyfarnu	Wrecsam
Medi 2008*	Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo	Casnewydd
Tach 2008	Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru	Caerdydd
Tach 2008	Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru	Caerdydd
Rhag 2008	Adolygiad Annibynnol o Baneli Dyfarnu	Trefforest
Chwe 2009	Panel Cwynion Annibynnol Gwasanaethau Cymdeithasol	Sir Benfro
Maw 2009	Tribiwnlys Cyflogaeth	Caerdydd
Maw 2009	Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru	Sir Ddinbych
Maw 2009	Panel Apêl Derbyniadau Ysgol	Sir y Fflint
Maw 2009	Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru**	Llandrindod
Maw 2009	Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru	Bangor, Gwynedd

* Ymweliadau sefydlu - Aelod o'r Pwyllgor Cymreig ynghyd ag aelod o'r Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwilysoedd

** Ymweliad gan aelod o'r Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thriwilysoedd.

Cyfarfodydd â Rhanddeiliaid

9 Meh. 2008	Uwch Farnur Mewnfudo Preswyl, Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo	Caerdydd
14 Gorff. 2008	Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru	Caerdydd
15 Gorff. 2008	Cwmsler Cyffredinol, Llywodraeth Cynulliad Cymru	Caerdydd
31 Gorff. 2008	Prif Weithredwr, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol	Llundain
5 Awst 2008	Cadeirydd, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru	Llundain
5 Medi 2008	Llywydd, Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru a Phrif Weithredwr, Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru	Casnewydd
8 Medi 2008	Rheolwr Ardal Cymru a De-orllewin Lloegr, Gwasanaeth Tribiwnlysoedd	Casnewydd
9 Medi 2008	Prif Weithredwr Cyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Cynorthwyol, SNAP Cymru	Caerdydd
9 Medi 2008	Ymchwilydd Cyswllt a Chymrawd Ymchwil, Ysgol y Gyfraith Caerdydd, Deddfuriaeth Cymru Ar-lein	Caerdydd
9 Medi 2008	Cadeirydd, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru	Caerdydd
16 Medi 2008	Gweithgor Apeliadau Plant	Merthyr Tudful
13 Hyd 2008	Gweithgor Apeliadau Plant	Merthyr Tudful
12 Tach 2008	Uned Hawliau Lles Castell-nedd Port Talbot	Port Talbot
12 Tach 2008	Grŵp Defnyddwyr Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru	Caerdydd
26 Tach 2008	Cyfarwyddwyr, Cyngor ar Bopeth Cymru	Caerdydd
9 Rhag 2008	Llywydd, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru	Caerdydd
10 Rhag 2008	Llywydd, Panel Asesu Rhenti Cymru	Caerdydd
23 Ion 2009	Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru	Llandrindod
16 Chwe 2009	Grŵp Defnyddwyr y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo	Casnewydd
20 Chwe 2009	Cyfarwyddwr, yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu	Caerdydd

24 Chwe 2009	Llywydd, Tribiwnlys Cosbau Traffig ac aelodau o'r Cyd-bwyllgor Dyfarnu a'r Gweithgor ar Reoliadau Parcio a Thraffig y tu allan i Lundain	Caerdydd
2 Maw 2009	Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Pencoed
2 Maw 2009	Barnwr Cylchdaith Siawnsri Cymru	Caerdydd
2 Maw 2009	Dirprwy Uwch Gyfarwyddwr, Llais Defnyddwyr Cymru	Caerdydd
3 Maw 2009	Cyfarwyddwr, yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu	Caerdydd
3 Maw 2009	Cyfarwyddwr Hyfforddi Tribiwnlysoedd, y Burdd Astudiaethau Barnwrol	Caerdydd
3 Maw 2009	Rheolwr Ardal Cymru a De-orllewin Lloegr, y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd	Caerdydd
4 Maw 2009	Barnwr Tribiwnlys Rhanbarthol, Tribiwnlys Cyflogaeth	Caerdydd
11 Maw 2009	Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	Caerdydd
17 Maw 2009	Barnwr Cyswllt y Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd a Barnwr Llywyddol Cymru	Llundain
2 Ebr 2009	Cyfarfod o'r Adolygiad o Gwynion Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cynulliad Cymru	Caerdydd
3 Ebr 2009	Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg	Aberystwyth
16 Ebr 2009	Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Caerdydd

Cynadleddau a Digwyddiadau

19 Meh. 2008	Cyflwyniad ar y Llys Gweinyddol yng Nghymru	Caerdydd
6 Awst 2008	Cyflwyniad Cymru'r Gyfraith yn yr Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol	Caerdydd
24 Medi 2008	Seminar Hyfforddi Panel Dyfarnu Cymru	Caerdydd
7-8 Hyd 2008	Seminar Hyfforddi Preswyl Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru	Llandrindod
16 Hyd 2008	Lansio Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gronfa Gymdeithasol	Caerdydd
23 Hyd 2008	Diwrnod Hyfforddi Aelodau Cymru o'r Tribiwnlys Prisio	Caerdydd
4 Tach 2008	Digwyddiad Lansio'r Strwythur Tribiwnlysoedd Unedig	Caerdydd
12-13 Tach 2008	Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus 'Developing Capable Citizens: Civil Justice and PLE'	Caerdydd
18 Tach 2008	Cynhadledd Flynyddol y Cyngor Cyfiaunder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd	Llundain
27 Tach 2008	Derbyniad i lansio'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys	Caerdydd

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Argraffwyd ar Bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.